Eitem 6.4

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-35-17 Papur 9 / Paper 9

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/RE/3949/17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

8 Tachwedd 2017

Annwyl John

Diolch am eich llythyr, wedi'i gyfeirio at gyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i sicrhau bod yr economi'n gweithio i bobl ar incwm isel, ac yn arbennig y rôl y mae budd-daliadau lles yn ei chwarae wrth gefnogi pobl ar incwm isel yng Nghymru.

Rwy'n bryderus iawn am yr effaith negyddol y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru. Rwy'n rhannu pryderon y Pwyllgor o ran y canlyniadau trychinebus y mae pobl agored i niwed yn eu wynebu yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Diolch am rannu copi o'ch llythyr dyddiedig 11 Hydref at y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yn nodi pryderon y Pwyllgor ac yn galw am oedi'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol er mwyn mynd i'r afael â materion gweithredol. Fe ysgrifennodd y cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 6 Hydref, gyda chopi at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn galw arno i oedi'r broses gyflym o gyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Roedd ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau ei gyhoeddiad ar 2 Hydref i barhau â'r gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae Awdurdodau Lleol, lle mae gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol ar waith yn barod, yn parhau i weld cynnydd yn ôl-ddyledion rhent nifer o denantiaid. Mae hyn yn arwain at broblemau dyled i'r rheini y mae angen cymorth fwyaf arnynt, neu'n gwaethygu dyledion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sydd ganddynt eisoes. Mae hefyd yn arwain at ganlyniadau difrifol i'r rheini a allai wynebu cael eu troi allan o'u cartrefi oherwydd nad oes ganddynt unrhyw arian i dalu'r rhent. Mae angen i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol y mae hawlwyr sy'n trosglwyddo i drefn Credyd Cynhwysol yn eu dioddef. Dylai wneud hyn drwy leihau'r amser aros ar gyfer taliad cyntaf yn sylweddol, cael gwared â'r cyfnod aros 7 diwrnod, a sicrhau mai'r drefn arferol i'r rheini y telir costau tai drostynt yw iddynt dalu'r landlord yn syth.

Rwy'n cydnabod bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau wedi cynnig taliad ymlaen llaw o hyd at 50% neu daliad yr un diwrnod i'r rheini sydd ei angen fwyaf, ond nid yw'r ateb hwn yn gynaliadwy nac yn ateb parhaol i hawlwyr agored i niwed a allai fod mewn dyled yn barod erbyn hyn. Yn wir, gallai'r benthyciad eu taflu ymhellach i bwll diwaelod dyled.

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 7 Tachwedd yn galw arno i atal cyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Gofynnais iddo gadarnhau hefyd y byddai'n cynnig ateb gwell i oresgyn yr anawsterau ariannol y mae'r system yn eu hachosi ar hyn o bryd.
Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles a gomisiynodd waith ymchwil i ystyried effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Rydych yn cyfeirio at gyhoeddiad ym mis Tachwedd 2014. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon, un ym mis Medi 2015 a'r llall ym mis Tachwedd 2015. Mae'r adroddiadau i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon: http://gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysing-reforms/?skip=1&lang=cy. Dyma'r dolenni uniongyrchol i'r ddau adroddiad:
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150918-welfare-reform-cy.pdf
https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R110_Welsh.pdf.

Ers mis Tachwedd 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddadansoddi a monitro ymchwil ac ystadegau ar yr effaith mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar Gymru. Mae'r tabl amgaeedig **(Atodiad A)** yn crynhoi ein dadansoddiad diweddaraf o'r prif ddiwygiadau lles, gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb tebyg ar wefan Llywodraeth Cymru cyn pen diwedd y flwyddyn, ynghyd â phapur diweddar rydym wedi'i lunio ar effaith bosib y newid i gymorth tai o dan Gredyd Cynhwysol ar bobl ifanc rhwng 18 a 21 oed. Yn ogystal, bydd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau am y newidiadau i'r system fudd-daliadau, ac rydym hefyd yn ystyried cynnwys cwestiynau am y pwnc hwn yn Arolwg Cenedlaethol 2018-19. Bydd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol cyfan ar gyfer 2017-18 yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd mis Mehefin 2018. Byddaf yn anfon y dolenni ar gyfer dogfennau perthnasol yr Arolwg Cenedlaethol atoch ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

## Atodiad A - Amcangyfrif o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

| Diwygiad | Dyddiad cyflwyno | Effaith |
|---|---|---|
| Cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) | Mehefin 2013 ar gyfer hawlwyr newydd yng Nghymru a Hydref 2013 ar gyfer y rheini sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl<br><br>Ar hyn o bryd disgwylir iddo gael ei gyflwyno'n llawn erbyn Hydref 2018 | Mae'r PIP wedi bod yn disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl yn raddol ers 2013. Y dyddiad cwblhau disgwyliedig ar gyfer cyflwyno'r PIP yw Hydref 2018. Dengys ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau fod 114,520 o bobl yng Nghymru wedi cael taliad PIP ar ddiwedd mis Gorffennaf, sy'n gynnydd o 8,380 (neu 8%) ar y ffigur chwarterol blaenorol (Ebrill 2017). O'r hawliadau hyn, roedd 64,130 yn ailasesiadau o'r Lwfans Byw i'r Anabl, sy'n gyfwerth â 56 y cant o gyfanswm y llwyth achosion PIP (48% ym Mhrydain). Ym mis Chwefror 2017, roedd 53,360 o hawlwyr Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghymru.<br><br>Roedd disgwyl i'r PIP leihau'r llwyth achosion a'r gwariant 20% erbyn 2015-16, o'i gymharu â'r Lwfans Byw i'r Anabl. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid[1], nid yw hyn wedi digwydd. Felly, mae disgwyl i'r llwyth achosion ar gyfer budd-daliadau anabledd gynyddu 3% rhwng 2014-15 a 2017-18. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod mwy o unigolion yn derbyn y cyfraddau PIP uwch nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, yn golygu bod gwariant ar fudd-daliadau anabledd yn parhau i dyfu'n gryf mewn termau real, yn groes i'r rhagolygon blaenorol. |
| Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (UC) | O fis Ebrill 2014 (yng Nghymru)<br><br>Ar hyn o bryd disgwylir iddo gael ei gyflwyno'n llawn erbyn Mawrth 2022 | Megis dechrau y mae'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Yn ôl ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau, roedd tua 21,500 o aelwydydd yn cael Credyd Cynhwysol ym mis Mehefin 2017 (gyda 13,900 neu 64% yn derbyn taliad Credyd Cynhwysol). Yn ôl ein hamcangyfrif ni, dyma 5% o'r holl aelwydydd a fydd yn cael Credyd Cynhwysol ar ôl ei gyflwyno'n llawn. Y swm cyfartalog o Gredyd Cynhwysol a dalwyd i aelwydydd yng Nghymru oedd £380 y mis, a chafodd 94% o'r taliadau hyn eu gwneud i bobl sengl heb blant. O'r 5,450 o aelwydydd yng Nghymru sy'n cael Credyd Cynhwysol ac sydd â hawl i gymorth o ran costau tai, talwyd costau tai 20% ohonynt yn uniongyrchol i landlord (drwy Drefniant Talu Amgen).<br><br>Mae ystadegau misol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yn fwy cyfoes na'r ystadegau tai chwe misol. Cynyddodd nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru i 24,100 ym mis Medi 2017, sy'n gynnydd o 3 y cant ers y mis diwethaf. O'r bobl hynny, roedd 9,120 (38%) ohonynt mewn gwaith. Mae nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn cyfateb i 4% o gyfanswm Prydain (609,900).<br><br>Dengys dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod rhai pobl ar eu hennill ac eraill ar eu colled o ganlyniad i'r Credyd Cynhwysol. O ran incwm, mae rhieni unigol sy'n gweithio a chyplau â dau incwm yn debygol o fod ar eu colled, ac mae cyplau ag un incwm a phlant yn debygol o fod ar eu hennill. Yn gyffredinol, mae'r Credyd Cynhwysol yn llai hael, ar gyfartaledd, na'r system y mae'n ei disodli. |

[1] https://www.ifs.org.uk/publications/9106

## Atodiad A - Amcangyfrif o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

| Diwygiad | Dyddiad cyflwyno | Effaith |
|---|---|---|
| Parhad... | O fis Ebrill 2014 (yng Nghymru)<br><br>Ar hyn o bryd disgwylir iddo gael ei gyflwyno'n llawn erbyn Mawrth 2022 | Fodd bynnag, amcangyfrifir bod yr effaith a amcangyfrifir ar y nifer sy'n manteisio ar Gredyd Cynhwysol yn golygu cynnydd mewn budd-daliadau yn 2021. Disgwylir i'r trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol leihau tlodi absoliwt cyffredinol yng Nghymru yn 2019-21, er y bydd hyn wedi'i gorbwyso gan cynnydd rhagamcanol mewn tlodi oherwydd ddiwygiadau lles eraill.[2]<br><br>Er bod dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos bod y Credyd Cynhwysol yn cryfhau'r cymhelliant ariannol i gyplau â phlant fod ag un oedolyn mewn gwaith, mae'n gwanhau'r cymhelliant i'r ddau riant weithio. Mae hefyd yn gwanhau'r cymhelliant i rieni sengl weithio.<br><br>Mae dadansoddiad a ddiweddarwyd yn ddiweddar gan yr Adran Gwaith a Phensiynau[3] yn awgrymu bod y Credyd Cynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar y farchnad lafur o ran y grŵp cyfyng a oedd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad (hawlwyr sengl a di-waith heb blant). Yn benodol, mae'n awgrymu bod hawlwyr newydd Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o fod wedi symud i mewn i waith ar ôl gwneud cais na sampl tebyg o hawlwyr y Lwfans Ceisio Gwaith. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl tynnu casgliadau pendant o'r dadansoddiad cyfyngedig a chynnar hwn o effaith y Credyd Cynhwysol pan fydd ar waith yn llawn. Mae tystiolaeth arall (e.e. Cyngor ar Bopeth, y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau, a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol) yn tynnu sylw at nifer o faterion yn ymwneud â'r broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, yn enwedig y gwasanaeth llawn. Er enghraifft, diffyg ymwybyddiaeth ymhlith hawlwyr o daliadau ymlaen llaw o hyd at 50%, cyfnod aros o chwe wythnos neu fwy am daliad cyntaf, a mwy o ddyled ac ôl-ddyledion rhent. Byddwn yn parhau i fonitro'r broses weithredu ac unrhyw faterion eraill sy'n dod i'r amlwg. |
| Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol | Ebrill 2016 (am bedair blynedd) | Fel yr adroddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid[4], mae disgwyl i'r broses hon leihau'r taliadau yn 2019-20 £450 y flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer y 10.5 miliwn o aelwydydd perthnasol yn y DU (gan arbed £4.6 miliwn i Drysorlys y DU). Pan gafodd y polisi ei gyhoeddi gyntaf, y swm cyfartalog y disgwyliwyd i'r aelwydydd ei golli oedd £320 y flwyddyn (gan arbed £3.4 biliwn i Drysorlys y DU). Y rheswm am y gwahaniaeth yw bod disgwyl i chwyddiant dros y pedair blynedd bellach fod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar y pryd. |



[2] https://www.ifs.org.uk/publications/8053; https://www.ifs.org.uk/publications/8136; https://www.ifs.org.uk/publications/10028
[3] https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-employment-impact-analysis-update
[4] https://www.ifs.org.uk/publications/9993

## Atodiad A - Amcangyfrif o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

| Diwygiad | Dyddiad cyflwyno | Effaith |
|---|---|---|
| Lleihau lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol | Ebrill 2016 | Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif[5] y bydd hyn yn lleihau gwariant £3.4 biliwn yn 2020-21, gyda thair miliwn o deuluoedd sy'n gweithio yn colli tua £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Er bod y teuluoedd tlotaf wedi'u diogelu, mae hyn yn golygu llai o gymhelliant i deuluoedd fod â rhywun mewn gwaith. Mae gostwng y gyfradd tapr ond yn darparu iawndal rhannol. |
| Tynnu'r elfen deuluol o'r credydau treth a'r Credyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu o'r Budd-dal Tai, ar gyfer hawliadau newydd | Ebrill 2016 ar gyfer Budd-dal Tai<br><br>Ebrill 2017 ar gyfer credydau treth a Chredyd Cynhwysol | Ni fydd plentyn cyntaf a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 bellach yn derbyn y £545 ychwanegol a delir drwy'r elfen deuluol. Gwnaed newidiadau tebyg i'r Budd-dal Tai drwy dynnu'r premiwm teulu ar gyfer plant a anwyd ar ôl Ebrill 2016 neu hawliadau a wnaed ar ôl hynny. Mae'r colledion yn dybiannol[6] ac felly ni fydd unrhyw un yn colli arian, ac mae yna esemptiadau yn eu lle. Disgwylir i'r newid hwn arbed £2 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn y tymor hir, ac effeithio ar tua 4 miliwn o deuluoedd yn y DU[7]. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn effeithio ar 200,000 o deuluoedd yng Nghymru yn y tymor hir[8]. |
| Lleihau'r cap ar fudd-daliadau aelwydydd i £20,000 yng Nghymru. | Wedi'i gyflwyno'n raddol rhwng Tachwedd 2016 - Ionawr 2017 | Ers Tachwedd 2016, cafodd y cap ar fudd-daliadau aelwydydd ei leihau o £26,000 i £20,000 (neu £18,200 i £13,400 ar gyfer oedolion sengl heb blant) yng Nghymru. Yn ôl ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau, capiwyd budd-daliadau 3,230 o aelwydydd yng Nghymru (68,080 ym Mhrydain) ym mis Mai 2017, o'i gymharu â 580 o aelwydydd yn Hydref 2016 (19,100 ym Mhrydain), cyn bod y cap ar fudd-daliadau'n cael ei leihau. Y gostyngiad cyfartalog i'r budd-dal oedd £54 yr wythnos yng Nghymru ym Mai 2017, gyda 70% y cant o'r rheini yr effeithiwyd arnynt yn bobl sengl gyda phlentyn/plant dibynnol. |
| Cyfyngu'r elfen blentyn o gredydau treth a Chredyd Cynhwysol i ddau blentyn | Ebrill 2017 | Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y polisi i gyfyngu'r elfen blentyn o gredydau treth a Chredyd Cynhwysol i ddau blentyn yn arbed £3 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn y tymor hir, gan effeithio ar 900,000 o deuluoedd yn y DU. Ceir nifer o esemptiadau i'r polisi hwn. Bydd teuluoedd â thri neu bedwar o blant yn cael tua £2,500 neu £2,700 yn llai'r flwyddyn[9]. Yn y tymor hir, rydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar tua 40,000 o deuluoedd yng Nghymru. Colled tybiannol yw hyn gan fod y toriad hwn ond yn berthnasol i enedigaethau newydd a hawliadau newydd. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid[10] yn amcangyfrif y bydd yn cynyddu'r gyfradd tlodi absoliwt gyffredinol yng Nghymru gan 0.6 pwynt canran yn 2019-21. |

---

5 https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/budgets/Budgets%202015/Summer/Hood_distributional_analysis.pdf
6 Mesur o'r hyn y byddai hawlwyr yn gymwys i'w gael pe bai'r polisi heb gael ei newid, yn hytrach na cholli incwm yr oeddent eisoes yn ei dderbyn.
7 https://www.ifs.org.uk/publications/9117
8 Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar nifer y teuluoedd a oedd yn cael Credydau Treth Plant yn 2014-15 fel procsi ar gyfer y boblogaeth yr effeithiwyd arni. https://www.gov.uk/government/statistics/personal-tax-credits-finalised-award-statistics-geographical-statistics-2014-to-2015
9 https://www.ifs.org.uk/publications/9117
10 https://www.ifs.org.uk/publications/10028

## Atodiad A - Amcangyfrif o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

| Diwygiad | Dyddiad cyflwyno | Effaith |
|---|---|---|
| Alinio cyfradd y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (WRAG) â'r Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer ceisiadau newydd | Ebrill 2017 | Ers Ebrill 2017, mae taliadau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ac elfen Gallu Cyfyngedig i Weithio'r Credyd Cynhwysol) ar gyfer hawliadau newydd gan y rheini y tybir eu bod yn gallu gwneud gweithgareddau cysylltiedig â gwaith (h.y. y rheini yn y Grŵp WRAG) wedi'u halinio â'r Lwfans Ceisio Gwaith a chyfradd safonol y Credyd Cynhwysol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y bydd hyn yn effeithio ar 500,000 o deuluoedd ym Mhrydain yn y tymor hir, gan ddefnyddio'r hawlwyr WRAG fel procsi ar gyfer y boblogaeth yr effeithir arni[11]. O ddefnyddio data cyfatebol ar gyfer Cymru, rydym yn amcangyfrif y bydd 35,000 o'r hawlwyr perthnasol yng Nghymru. Y golled dybiannol i'r rheini yr effeithir arnynt fydd oddeutu £29 yr wythnos, sy'n arbed tua £650 miliwn y flwyddyn yn y tymor hir i Drysorlys y DU. O Ebrill 2017, gwnaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau roi nifer o fesurau yn eu lle i helpu hawlwyr y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn y grŵp WRAG a grŵp Gallu Cyfyngedig i Weithio'r Credyd Cynhwysol i symud i mewn i waith, fel yr amlinellwyd yn y papur '*Improving Lives: Work, Health and Disability Green Paper*'. |
| Newidiadau i'r cymorth tai ar gyfer pobl 18-21 oed o dan y Credyd Cynhwysol | Ebrill 2017 | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan yr Adran Gwaith a Phensiynau[12] yn amcangyfrif y bydd y newid i gymorth tai'r Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl 18-21 oed yn 2017-18 yn effeithio ar oddeutu 1,000 o bobl ym Mhrydain, gan gynyddu i 11,000 erbyn 2020-21. Yn dilyn ein cais am amcangyfrifon ar gyfer Cymru, rydym yn gwybod bod hawlwyr yng Nghymru yn cyfrif am oddeutu 5% o gyfanswm y llwyth achosion ym Mhrydain yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n golygu y bydd yn effeithio ar 500 o hawlwyr yng Nghymru erbyn 2020-21. Rydym hefyd wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain o effaith bosibl y newid hwn, ac yn amcangyfrif y bydd yn effeithio ar 650 o bobl yng Nghymru yn y tymor hir, sy'n debyg i amcangyfrif yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd amodau economaidd (e.e. y farchnad lafur) a ffactorau demograffig, ymhlith eraill, yn pennu faint y bobl y bydd y polisi hwn yn effeithio arnynt. Mae ein dadansoddiad llawn ar gael ar gais. |
| Gofynion amodoldeb y Credyd Cynhwysol ar gyfer rhieni pan fydd y plentyn ieuengaf yn 3 oed | Medi 2017 | Ers Medi 2017, mae disgwyl i rieni yn y system budd-daliadau lles sy'n gallu gweithio ac y mae eu plentyn ieuengaf yn 3 oed neu'n hŷn (i lawr o 5 oed neu hŷn), chwilio am waith. Pan fydd eu plentyn ieuengaf yn 2 oed, mae disgwyl iddynt baratoi ar gyfer gwaith. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y bydd y mesur hwn yn effeithio ar oddeutu 220,000 o ofalwyr cyfrifol sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol ym Mhrydain y mae ganddynt blentyn ieuengaf sy'n 3 neu 4 oed, gyda dros 75% o'r rhain yn rhieni sengl[13]. Rydym yn disgwyl i'r mesur hwn effeithio ar tua 8,000 o rieni sengl yng Nghymru[14]. |



[11] http://www.parliament.uk/documents/impact-assessments/IA15-006B.pdf
[12] https://www.insidehousing.co.uk/news/news/up-to-11000-affected-by-under-21-benefit-cap-by-2021-50306
[13] http://www.parliament.uk/documents/impact-assessments/IA15-006A.pdf
[14] https://www.gov.uk/government/statistics/income-support-for-lone-parents-by-jobcentre-plus-district-and-age-of-youngest-child

**Atodiad A - Amcangyfrif o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru**

| Diwygiad | Dyddiad cyflwyno | Effaith |
|---|---|---|
| Effaith gyffredinol y newidiadau i'r system dreth a'r system fudd-daliadau | 2015-16 – 2019-20<br><br>(At ddibenion modelu, tybir bod y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn erbyn y dyddiad hwn) | Mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid[15] ar gyfer Llywodraeth Cymru'n dangos y byddai aelwydydd yng Nghymru'n colli 1.6% o'u hincwm net ar gyfartaledd (neu tua £460 y flwyddyn) pe bai'r holl ddiwygiadau i'r system dreth a'r system fudd-daliadau yr oedd llywodraeth flaenorol y DU am eu cyflwyno rhwng 2015-16 a 2019-20 yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn cyfateb i £600 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Mae rhai o'r diwygiadau hyn eisoes wedi'u cyflwyno yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn aros am wybodaeth yng Nghyllideb Hydref 2017 ar bolisïau treth a budd-daliadau llywodraeth bresennol y DU.<br><br>Os yw'r un polisïau'n parhau i gael eu cyflwyno, bydd aelwydydd incwm isel, yn enwedig y rheini sydd â phlant, yn colli mwy o lawer ar gyfartaledd (tua 12% o'u hincwm net). Byddai'n ergyd arbennig o galed i deuluoedd mawr a fyddai'n colli tua £7,750 y flwyddyn neu 20% o'u hincwm net ar gyfartaledd. Mae aelwydydd â pherson anabl yn colli llawer mwy ar gyfartaledd na'r aelwydydd heb berson anabl (2.4% neu £618 o'i gymharu â 0.9% neu £272 y flwyddyn).<br><br>Rhagwelir dadansoddiad diweddar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid[16] y bydd tlodi plant absoliwt yng Nghymru yn cynyddu bron i 7 pwynt canran rhwng 2013-15 a 2019-21, y cynnydd mwyaf o holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Caiff hyn ei yrru gan newidiadau budd-daliadau llywodraeth y DU, megis cyfyngu ar gredydau treth a Chredyd Cymhwysol i ddau o blant, a rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio. Mae diwygiadau arfaethedig treth a buddion llywodraeth y DU yn cyfrif am bron i 4 pwynt canran, neu tua 60 y cant, o'r cynnydd mewn tlodi plant absoliwt yng Nghymru dros y cyfnod hwn. |



15 https://www.ifs.org.uk/publications/8053
16 https://www.ifs.org.uk/publications/10028